

# Rhoi organau a meinwe



Atebion i'ch  
cwestiynau

I gael rhagor o wybodaeth:

**0300 123 23 23**

[www.organdonation.nhs.uk](http://www.organdonation.nhs.uk)

## Rhoi organau a meinwe – atebion i'ch cwestiynau.

Trawsblaniadau yw un o lwyddiannau mwyaf gwyrthiol meddygaeth fodern. Ond maent yn gwbl ddibynol ar haelioni rhoddwyr a'u teuluoedd sy'n barod i roi rhodd a fydd yn achub neu'n trawsnewid bywyd rhywun arall.

Gall un rhoddwr achub bywydau nifer o bobl, adfer golwg dau unigolyn arall a gwella ansawdd bywyd llawer mwy. Po fwyaf o bobl sy'n cytuno i roi eu horganau a'u meinwe ar ôl marw, mwyaf o bobl fydd yn elwa. Drwy ddewis ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG, gallech chi helpu i sicrhau bod bywyd yn mynd yn ei flaen i lawer o bobl eraill.

Mae ymuno â'r gofrestr yn cofnodi eich caniatâd i gael defnyddio eich organau a meinwe ar gyfer eu trawsblannu ar ôl i chi farw.

Pan fyddwch chi'n cofrestru, mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrth y bobl sydd agosaf atoch chi am eich penderfyniad.

Mae penderfynu a ydych chi am fod yn rhoddwr ar ôl i chi farw yn rhywbeth personol iawn ac mae'n bwysig bod pawb yn gwneud ei benderfyniad ei hun. Mae'r llyfryn hwn yn ateb y cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnir am roi organau a meinwe ac mae'n ceisio tawelu unrhyw amheuan a all fod gennych ynglŷn â gadael rhodd o fywyd i eraill ar ôl i chi farw.

## Cynnwys

1	Beth yw rhoi organau?	1
2	Pryd digwyddodd y trawsblaniadau organ cyntaf?	1
3	Pa organau y gellir eu trawsblannu?	1
4	Beth mae rhoi meinwe'n ei olygu?	1
5	A yw ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG yn golygu fy mod yn cytuno i roi fy wyneb neu fy mreichiau a'm coesau i gael eu trawsblannu?	2
6	Pam mae angen mwy a mwy o roddwyr?	2
7	Sut byddan nhw'n gwybod eich bod chi wedi marw go iawn?	2
8	A ydyn nhw'n gallu eich cadw chi'n fyw ar beiriannau?	3
9	A fyddan nhw'n gadael i chi farw os ydyn nhw'n gwybod eich bod chi am roi'ch organau?	3
10	A alla i roi organau neu feinwe os bydda i'n marw yn yr uned frys?	3
11	A allwch chi roi organ tra'ch bod chi'n dal yn fyw?	3
12	Pam mae angen i mi benderfynu a ydw i am fod yn rhoddwr?	4
13	Beth yw Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG?	4
14	A oes angen i mi gofrestru os oes gen i gerdyn rhoddwr?	5
15	A fydd fy enw a'm cyfeiriad yn cael eu rhoi i sefydliadau eraill?	5
16	Dydw i ddim yn siŵr a wyf fi wedi cofrestru'n barod, beth ddylwn i ei wneud?	5
17	Pwy fyddai'n cael fy organau a fy meinwe petawn i'n penderfynu bod yn rhoddwr?	5
18	A fydd rhoddwyr yn cael eu sgrinio i weld a oes ganddynt glefyd trosglwyddadwy?	5
19	A alla i fod yn rhoddwr os oes gennyf gyflwr meddygol ar hyn o bryd?	5
20	A alla i fod yn rhoddwr os cafodd fy nghynniog i roi gwaed ei wrthod?	6
21	Pwy a all ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG?	6
22	Beth fydd yn digwydd os gwnaeth fy rheini, fy ngwarcheidwad neu rywun sydd â chyfrifoldeb rhiant dros fy nghofrestru pan oeddwn yn ifanc, heb yn wybod i mi?	6
23	A all pobl hŷn fod yn rhoddwyr?	6
24	A oes gwrthwynebiadau crefyddol i roi organau a meinweoedd?	7
25	A yw lliw fy nghroen yn gwneud gwahaniaeth?	7

26	Os oes ar rywun angen dirfawr am organ, a oes unrhyw bwrpas mewn gwneud apêl arbennig?	7
27	A alla i gytuno i roi rhai organau neu feinweoedd a pheidio â rhoi rhai eraill?	7
28	A alla i gytuno i roi i rai pobl a ddim i eraill?	7
29	A allai fy organau a meinweoedd gael eu rhoi i glaf preifat?	8
30	A yw bod yn rhoddwr yn golygu oedi yn nhrefniadau'r angladd?	8
31	A all fy organau neu feinwe gael eu rhoi i rywun mewn gwlad arall?	8
32	A yw rhoi organau a meinweoedd yn golygu y bydd y corff yn cael ei anffurfio?	8
33	A fydd modd gweld y corff wedyn?	8
34	A oes yn rhaid i deulu'r rhoddwr dalu am gost y llawdriniaeth?	9
35	A fydd y GIG yn talu costau'r angladd?	9
36	Mae perthynas i mi am fod yn rhoddwr. Beth fydd angen i mi ei wneud ar ôl iddynt farw?	9
37	A fydd yr organau neu'r meinweoedd sy'n cael eu rhoi ar gyfer eu trawsblannu yn cael eu defnyddio at ddibenion ymchwil?	9
38	Beth yw'r gwahaniaeth rhwng rhoi organau a chadw organau?	9
39	A alla i adael fy nghorff ar gyfer addysg neu ymchwil feddygol ar ôl i mi roi fy organau?	9
40	A oes modd i deulu'r rhoddwr gael gwybod pwy oedd y derbynydd?	10
41	Pam dylwn i drafod fy nymuniadau gyda'm teulu?	10
42	Beth fyddai'n digwydd petai fy nheulu yn gwrthwynebu?	10
43	Beth fydd yn digwydd os nad oes gen i deulu na pherthnasau eraill?	11
44	Beth yw perthynas gymwys?	11
45	A ddylwn i roi fy nymuniadau yn fy ewyllys?	11
46	A alla i newid fy meddwl?	11
47	A all rhywun sydd wedi marw roi sberm neu wyau i'w defnyddio rywbryd yn y dyfodol?	11
48	A all pobl brynu neu werthu organau?	11
49	Hoffwn i roi gwaed, beth dylwn i ei wneud?	11
50	Mae gen i ddiddordeb mewn rhoi mēr esgyrn, beth dylwn i ei wneud?	12

## 1. Beth yw rhoi organau?

Mae rhoi organ yn rhodd o organ i helpu rhywun y mae angen trawsblaniad arno. Mae haelioni rhoddwyr a'u teuluoedd yn galluogi mwy na 3,000 o bobl yn y DU bob blwyddyn i ailafael yn eu bywydau.

## 2. Pryd digwyddodd y trawsblaniadau organ cyntaf?

Trawsblannwyd aren yn llwyddiannus am y tro cyntaf yn 1954. Trawsblannwyd y galon gyntaf yn 1967.

## 3. Pa organau y gellir eu trawsblannu?

Gellir trawsblannu arenau, y galon, iau neu afu, ysgyfaint, pancreas a'r coluddyn bach.

Mae'r technegau yn gwella drwy'r amser a chyn bo hir efallai bydd modd i ni drawsblannu rhannau eraill o'r corff i helpu mwy fyth o bobl.

## 4. Beth mae rhoi meinwe'n ei olygu?

Mae rhoi meinwe yn golygu rhoi meinwe fel cornbilennau, croen, esgyrn, tendonau, cartilagau a falfiau'r galon i helpu eraill.

Digwyddodd y trawsblaniad cornbilen llwyddiannus cyntaf yn 1905. Bob blwyddyn, bydd cornbilennau sy'n cael eu rhoi yn adfer golwg miloedd o bobl sydd ag afiechydon neu anafiadau difrifol i'w llygaid.

Defnyddir esgyrn, tendonau a chartilagau i ailadeiladu rhannau o'r corff ar ôl anaf neu ar ôl llawdriniaeth i roi cymalau newydd. Gall trawsblannu asgwrn olygu nad oes yn rhaid i gleifion sy'n dioddef o ganser yr esgyrn golli breichiau neu goesau.

Defnyddir falfiau'r galon i helpu plant sy'n cael eu geni â diffyg ar y galon ac oedolion sydd ag

afiechyd neu ddifrod i'w falgiau. Defnyddir impiadau croen i drin pobl â llosgiadau difrifol.

Gall y rhan fwyaf o bobl roi meinwe. Yn wahanol i organau, efallai fod modd rhoi meinwe hyd at 48 awr ar ôl i rywun farw.

Ni chymerir organau na meinweoedd atgenhedlu o bobl sydd wedi marw.

**“Alla i ddim diolch digon i'r rhoddwyr a'u perthnasau. Mae eu rhoddion wedi rhoi fy ngolwg yn ôl i mi ac wedi trawsnewid fy mywyd.”**

Derbynnydd cornbilen

#### **5. A yw ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG yn golygu fy mod yn cytuno i roi fy wyneb neu fy mreichiau a'm coesau i gael eu trawsblannu?**

Nac ydy. Byddai'n rhaid i ni gael cytundeb penodol ar gyfer y mathau hyn o roi – naill ai gennyh chi yn ystod eich oes neu gan eich perthynas agosaf ar ôl i chi farw. Dywedwch wrth y rhai agosaf atoch chi beth yw eich dymuniad.

#### **6. Pam mae angen mwy a mwy o roddwyr?**

Bob dydd bydd tri o bobl yn marw tra'u bod yn aros am drawsblaniad organ a bydd nifer o bobl eraill yn colli eu bywydau cyn iddynt gyrraedd y rhestr trawsblaniadau hyd yn oed. Mae prinder difrifol o organau ac mae'r bwch rhwng nifer yr organau sy'n cael eu rhoi a nifer y bobl sy'n aros am drawsblaniad yn cynyddu.

Mae trawsblaniadau'n llwyddiannus iawn ac mae disgwyl y bydd nifer y bobl y mae arnynt angen trawsblaniad yn cynyddu'n sydyn oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio, oherwydd y cynnydd mewn arenau sy'n methu ac oherwydd

datblygiadau meddygol sy'n golygu bod mwy a mwy o bobl yn gallu elwa o drawsblaniad.

Fodd bynnag, mae nifer yr organau sydd ar gael ar gyfer trawsblaniadau wedi aros yr un fath dros y pum mlynedd diwethaf. Dim ond nifer fach iawn o bobl sy'n marw mewn amgylchiadau lle maent yn gallu rhoi eu horganau. Gan fod yn rhaid trawsblannu organau'n fuan iawn ar ôl i rywun farw, dim ond pobl sydd wedi marw mewn ysbyty sy'n gallu rhoi eu horganau. Fel arfer daw organau o bobl sydd wedi eu cyhoeddi'n farw tra'u bod ar beiriant anadlu mewn adran gofal dwys mewn ysbyty, fel arfer o ganlyniad i waedlif ar yr ymennydd, damwain ddifrifol fel damwain car, neu strôc.

Mae nifer y bobl, yn enwedig pobl iau, sy'n marw mewn amgylchiadau fel hyn yn gostwng, yn bennaf oherwydd gwelliannau gwerthfawr mewn diogelwch ar y ffyrdd, datblygiadau meddygol wrth drin cleifion a dulliau o atal strociau ymhlith pobl ifanc.

Rheswm pwysig arall dros y prinder organau yw bod cymaint o bobl heb gofnodi eu dymuniad i roi organau nac wedi trafod y mater gyda'u teuluoedd. Nid oes digon o bobl wedi ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG nac wedi gwneud yn siŵr bod eu teuluoedd yn gwybod am eu dymuniadau.

Er mai dim ond ychydig o bobl sy'n marw mewn amgylchiadau a fyddai'n galluogi i'w horganau gael eu defnyddio, gall llawer o bobl roi meinwe ar ôl iddynt farw. Mae datblygiadau gwyddonol a meddygol yn y triniaethau sydd ar gael i gleifion wedi arwain at gynnydd yn yr angen am feinwe sy'n cael ei rhoi.

#### **7. Sut byddan nhw'n gwybod eich bod chi wedi marw go iawn?**

Dim ond ar ôl i rywun farw y bydd organau'n cael eu tynnu. Bydd marwolaeth yn cael ei

chadarnhau gan feddygon ar lefel ymgynghorol sy'n gwbl annibynnol ar y tîm trawsblannu. Bydd marwolaeth yn cael ei chadarnhau yn union yr un ffordd ar gyfer pobl sy'n rhoi organau ag y bydd yn achos pobl eraill.

Mae rhan fwyaf y rhoddwyr organau yn bobl sy'n marw o ganlyniad i waedlif ar yr ymennydd, anaf difrifol i'r pen neu strôc, ac sydd ar beiriant anadlu yn uned gofal dwys yr ysbyty. Yn yr amgylchiadau hyn bydd marwolaeth yn cael ei chadarnhau drwy wneud profion ar fôn yr ymennydd. Mae safonau a gweithdrefnau eglur a phendant iawn ar gyfer y prawf hwn ac fe'i cynhelir bob amser gan ddau feddyg profiadol.

Mae'r peiriant anadlu yn cynhyrchu ocsigen sy'n cadw'r galon i guro a'r gwaed i gylchredeg ar ôl marwolaeth. Gelwir y rhoddwyr hyn yn rhoddwyr curiad calon. Fel arfer bydd organau megis y galon, sy'n dirywio'n gyflym iawn heb gyflenwad ocsigen, yn cael eu rhoi gan roddwr curiad calon yn unig.

Gall cleifion sy'n marw yn yr ysbyty, ond nad ydynt ar beiriant anadlu, roi eu harenau mewn rhai amgylchiadau, ac mewn rhai amgylchiadau gallant hefyd roi organau eraill. Gelwir y rhain yn rhoddwyr heb guriad calon.

Gall rhoddwyr curiad calon a rhoddwyr heb guriad calon roi eu cornbilennau a meinweoedd eraill.

## **8. A ydyn nhw'n gallu eich cadw chi'n fyw ar beiriannau?**

Na allant. Mae'r claf wedi marw. Mae'r peiriant anadlu yn cynhyrchu ocsigen i'r corff ac mae hyn yn golygu y bydd y galon yn parhau i guro a chylchredeg gwaed. Mae hyn yn cadw'r organau'n iach er mwyn gallu eu trawsblannu. Pan fydd y peiriant anadlu'n cael ei ddiffodd bydd y galon yn rhoi'r gorau i guro ar ôl chydig funudau.

## **9. A fyddan nhw'n gadael i chi farw os ydyn nhw'n gwybod eich bod chi am roi'ch organau?**

Na fyddant. Mae gan feddygon ddyletswydd gofal i geisio achub bywyd yn gyntaf. Os, er gwaethaf eu holl ymdrechion, bydd y claf yn marw, gellir wedyn ystyried rhoi organau a meinwe a hynny gan dîm cwbl wahanol o arbenigwyr rhoi a thrawsblannu a fydd yn cymryd drosodd.

## **10. A alla i roi organau neu feinwe os bydda i'n marw yn yr uned frys?**

Mewn nifer gynyddol o ysbytai, gall cleifion sy'n marw yn yr uned frys roi organau, llygaid a meinwe.

## **11. A allwch chi roi organ tra'ch bod chi'n dal yn fyw?**

Gallwch, mewn rhai achosion. Mae prinder organau wedi golygu bod mwy a mwy o organau'n cael eu rhoi gan bobl sy'n fyw.

Yr organ sy'n cael ei rhoi amlaf gan bobl sy'n fyw yw arenau gan fod unigolyn iach yn gallu byw bywyd cwbl normal gyda dim ond un aren sy'n gweithio. Mae arenau sy'n cael eu trawsblannu o roddwyr byw yn fwy tebygol o oroesi dros y tymor hir na rhai sy'n cael eu trawsblannu o bobl sydd wedi marw. Mae nifer o resymau dros hyn, a'r prif reswm yw bod y rhoddwyr yn fyw ac yn iach. Mae pedwar deg y cant o'r holl drawsblaniadau organau yn dod gan roddwyr byw.

Gellir trawsblannu rhan o'r iau neu afu ac mae hefyd yn bosibl rhoi tamaid o ysgyfaint ac, mewn nifer fach iawn o achosion, rhan o'r coluddyn bach. Yn achos pob un o'r trawsblaniadau hyn o rywun byw, mae'n rhaid ystyried y risg i'r rhoddwr yn ofalus iawn. Cyn bwrw ymlaen â thrawsblaniad o rywun

byw mae'n rhaid cydymffurfio â rheoliadau caeth iawn a dilyn proses asesu a thrafod drylwyr dros ben.

Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 a Deddf Meinweoedd Dynol (yr Alban) 2006 yn caniatáu dau fath newydd o roi aren gan roddwyr byw – rhodd wedi'i pharu a rhodd allgarol.

Mae rhoddwyr yn aml yn berthynas agos ond gallant hefyd fod yn unigolion nad ydynt yn perthyn ond sydd â pherthynas emosiynol agos â'r derbynnydd, fel partner neu ffrind agos. Weithiau ni fydd y rhoddwr a'r derbynnydd yn cydweddu â'i gilydd oherwydd y gwahaniaeth rhwng eu grŵp gwaed neu eu meinwe ac mewn achos o'r fath efallai y gellir paru gyda rhoddwr a derbynnydd arall sydd yn yr un sefyllfa. Mae hyn yn golygu y bydd y ddau dderbynnydd yn elwa o drawsblaniad na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall (gelwir hyn yn rhodd wedi'i pharu). Pan fydd mwy na dau bâr yn rhan o drefniadau cyfnewid o'r fath, gelwir hyn yn rhodd wedi'i chyfuno. Gall rhoddwyr hefyd gynnig aren i rywun sydd ar y rhestr aros am drawsblaniad, er nad ydynt wedi cyfarfod yr unigolyn hwnnw o'r blaen (gelwir hyn yn rhodd allgarol heb ei chyfeirio).

Deddf Meinweoedd Dynol 2004 a sefydlodd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol. Un o rolau'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yw rheoleiddio trawsblaniadau rhoddwyr byw yn y DU.

**"Rydyn ni'n ddiolchgar i deulu'r rhoddwr, oherwydd pe na baen nhw wedi bod mor hael ac anhunanol ar ôl marwolaeth annhymig eu plentyn, ni fyddai fy mab yma heddiw."**

Rhieni bachgen tair oed a gafodd drawsblaniad coluddyn bach ac afu/iau.

Gallwch chi ddysgu mwy am fod yn rhoddwr aren byw drwy ddarllen ein taflen *Allwn i fod yn rhoddwr aren byw?* sydd ar gael drwy ffonio'r Llinell Gymorth Rhoddwyr Organau (0300 123 23 23) neu fynd i'r adran *How to become a donor* ar y wefan Rhoi Organau.

Os hoffech chi gael gwybod mwy am roddion pâr/cyfun neu allgarol heb eu cyfeirio, cysylltwch â'ch canolfan drawsblannu arenau agosaf. Mae manylion am ganolfannau trawsblannu arenau ar gael yn yr adran *About transplants* ar y wefan Rhoi Organau.

Cewch ragor o wybodaeth am waith yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, gan gynnwys taflen ar drawsblaniadau rhoddwyr byw, ar eu gwefan: [www.hta.gov.uk/cymraeg.cfm](http://www.hta.gov.uk/cymraeg.cfm)

## 12. Pam mae angen i mi benderfynu a ydw i am fod yn rhoddwr?

Yn y DU ni fydd organau a meinwe gan roddwr posibl yn cael eu defnyddio oni bai eu bod wedi mynegi dymuniad i wneud hynny. Gallwch chi fynegi eich dymuniad mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft drwy ddweud wrth berthynas neu ffrind agos, drwy gario cerdyn rhoddwr organau neu drwy gofnodi eich dymuniad ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG. Bydd rhoi eich enw ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG yn ei gwneud yn haws i'r GIG gadarnhau eich dymuniadau ac i'r rhai oedd agosaf atoch chi pan oeddech chi'n fyw i ddilyn y dymuniadau hynny.

Os na fydd eich dymuniadau'n eglur, gofynnir i'r sawl a oedd agosaf atoch chi beth fyddai eich dymuniad chi wedi bod, felly mae'n bwysig eich bod chi'n sicrhau eu bod yn ymwybodol o'ch barn chi ar roi organau.

## 13. Beth yw Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG?

Mae Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG,

yn llythrennol, yn achub bywydau.

Mae'n gronfa ddata gyfrinachol a gedwir ar gyfrifiadur sy'n cofnodi dymuniad dros 13 miliwn o bobl sydd wedi penderfynu eu bod am adael rhodd o fywyd i rywun arall ar ôl iddynt farw. Defnyddir y gofrestr i helpu i gadarnhau a oedd unigolyn am roi organ neu feinwe, ac os oedd, pa organau neu feinweoedd.

#### 14. A oes angen i mi gofrestru os oes gen i gerdyn rhoddwr?

Oes. Mae cardiau'n mynd ar goll neu'n difetha ac efallai na fydd eich cerdyn chi gennych chi pan eir â chi i'r ysbyty. Mae ychwanegu eich enw at y rhestr yn ffordd fwy diogel o fynegi eich dymuniad. Gallwch chi barhau i gario'r cerdyn os mynnwch chi. Cofiwch ddweud wrth eich perthnasau beth yw eich dymuniadau.

#### 15. A fydd fy enw a'm cyfeiriad yn cael eu rhoi i sefydliadau eraill?

Na fyddant. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG i gofrestru eich dymuniad ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG a chan weithwyr gofal iechyd proffesiynol petaech chi'n marw. Ni fydd eich manylion personol yn cael eu rhoi i unrhyw unigolyn neu sefydliad heb eich caniatâd penodol chi.

#### 16. Dydw i ddim yn siŵr a wyf fi wedi cofrestru'n barod, beth ddylwn i ei wneud?

Naill ai ysgrifennwch atom i ofyn (mae natur gyfrinachol y gofrestr yn golygu na allwn ddweud wrthyhych chi dros y ffôn) neu gwnewch gais i ymuno â'r rhestr a bydd ein system yn gallu dweud a yw eich enw eisoes ar y gofrestr ac yn gallu diweddarau unrhyw fanylion perthnasol.

#### 17. Pwy fyddai'n cael fy organau a fy meinwe petawn i'n penderfynu bod yn rhoddwr?

Bydd yn rhaid i nifer o bethau gydweddu neu fod yn agos iawn at gydweddu i sicrhau trawsblaniad llwyddiannus. Rhaid ystyried ffactorau fel grŵp gwaed, oed a phwysau. Yn achos arenau, ffactor bwysig arall yw math y feinwe, sy'n fwy cymhleth na grŵp gwaed. Bydd cydweddiad perffaith yn sicrhau gwell canlyniadau.

Mae rhestr genedlaethol, a gedwir ar gyfrifiadur, wedi'i sefydlu ar gyfer cleifion sy'n aros am drawsblaniad. Bydd y cyfrifiadur yn dod o hyd i'r claf sy'n cydweddu orau ag organ sydd ar gael neu â'r uned drawsblannu lle mae'r organ ar gael. Fel arfer, rhoddir blaenoriaeth i'r cleifion sydd â'r angen mwyaf am drawsblaniad. Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG sy'n gyfrifol am redeg y rhestr drawsblaniadau a'r system dyrannu organau rhoddwyr. Mae'n gweithio 24 awr y dydd, bob diwrnod o'r flwyddyn, ac mae'n gwasanaethu'r DU i gyd.

Ar achlysuron prin bydd meinwe'n cael ei chydweddu, e.e. o ran maint a math y feinwe, ond fel arall mae ar gael i unrhyw glaf y mae angen trawsblaniad arno.

#### 18. A fydd rhoddwyr yn cael eu sgrinio i weld a oes ganddynt glefyd trosglwyddadwy?

Byddant. Cymerir gwaed gan bob rhoddwr posibl a chynhelir prawf i sicrhau nad oes gan yr unigolyn glefydau a feirysau trosglwyddadwy megis HIV a hepatitis. Bydd teulu'r rhoddwr posibl yn cael gwybod bod angen cynnal y prawf hwn.

#### 19. A alla i fod yn rhoddwr os oes gennyf gyflwr meddygol ar hyn o bryd?

Gallwch, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Nid yw bod â chyflwr meddygol o reidrwydd

yn atal rhywun rhag bod yn rhoddwr organ neu feinwe. Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a fydd yn penderfynu a yw rhai o'ch organau a'ch meinwe, neu'ch holl organau a'ch meinwe, yn addas i'w trawsblannu, a byddant yn ystyried eich hanes meddygol.

Dim ond dau gyflwr sy'n golygu na ellir rhoi unrhyw organ o dan unrhyw amgylchiadau. Ni chaiff unigolyn roi organ na meinwe os oes ganddo HIV, os oes ganddo CJD neu os oes amheuaeth bod ganddo CJD.

## 20. A alla i fod yn rhoddwr os cafodd fy nghynnig i roi gwaed ei wrthod?

Gallwch. Bydd y penderfyniad ynghylch a yw unrhyw organ neu feinwe, neu bob un ohonynt, yn addas ar gyfer eu trawsblannu bob amser yn cael ei wneud gan arbenigwr, gan ystyried eich hanes meddygol. Efallai fod rhesymau penodol pam nad oedd modd i chi roi gwaed, er enghraifft, efallai eich bod wedi cael trallwysiad gwaed neu hepatitis yn y gorffennol. Neu efallai nad oedd modd i chi roi gwaed oherwydd cyflwr eich iechyd ar y pryd – weithiau bydd rhywbeth mor syml ag annwyd neu feddyginiaeth yn gallu eich rhwystro rhag rhoi gwaed.

## 21. Pwy a all ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG?

Gall pawb, waeth beth yw eu hoedran a'u hiechyd, ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG, ar yr amod eu bod yn cael eu hystyried yn gymwys yng ngolwg y gyfraith. Mae ymuno â'r Gofrestr yn ffordd o fynegi eich dymuniad i helpu eraill drwy roi organau ar gyfer eu trawsblannu ar ôl i chi farw. Ond, yn bwysicach na hynny, mae ymuno â'r Gofrestr hefyd yn ffordd o roi awdurdodiad neu ganiatâd cyfreithiol i'r trawsblannu ddigwydd.

Mae'r ffaith bod eich enw ar y Gofrestr yn rhoi caniatâd cyfreithiol i'ch organau gael eu rhoi. Caiff plant gofrestru, ond gofynnir i rieni, gwarcheidwaid neu'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhiant drostynt gadarnhau eu caniatâd petai marwolaeth y plentyn yn golygu bod rhoi organau neu feinwe yn cael ei ystyried.

## 22. Beth fydd yn digwydd os gwnaeth fy rheini, fy ngwarcheidwad neu rywun sydd â chyfrifoldeb rhiant dros fy nghofrestru pan oeddwn yn ifanc, heb yn wybod i mi?

"Rwy'n cael llawer o gysur o wybod, os na fydd fy mab yn cael bywyd llawn, yna o leiaf bydd plentyn arall yn cael cyfle."

Mam i roddwr chwech oed

Gallwch chi ysgrifennu atom yn 'Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG/NHS Organ Donor Register', Freepost RRZK-SHUX-SBCK, Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG/NHS Blood and Transplant, Fox Den Road, Stoke Gifford, Bryste/Bristol BS34 8RR' unrhyw bryd, i weld a yw eich manylion wedi'u cofnodi ar y Gofrestr neu i ofyn i ni ddileu eich manylion. Byddwn yn ysgrifennu atoch chi i gadarnhau ein bod ni wedi gwneud hyn.

Petai eich marwolaeth yn golygu bod rhoi organau neu feinwe yn cael ei ystyried, ac os ychwanegwyd eich enw ar y gofrestr pan oeddech yn blentyn, tynnir sylw'r staff meddygol at yr angen i ofyn caniatâd neu awdurdodiad i'r trawsblannu ddigwydd.

## 23. A all pobl hŷn fod yn rhoddwyr?

Gallant. Yn achos y llygaid a rhai mathau eraill o feinwe, nid yw oed yn gwneud gwahaniaeth. Yn achos yr organau eraill, cyflwr corfforol

yr unigolyn, ac nid ei oed, yw'r ffactor a fydd yn penderfynu p'un ai a yw'n addas. Bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol arbenigol yn penderfynu ymhob achos pa organau a meinweoedd sy'n addas. Mae organau a meinweoedd pobl yn eu 70au ac 80au yn cael eu trawsblannu'n llwyddiannus.

## 24. A oes gwrthwynebiadau crefyddol i roi organau a meinweoedd?

Nac oes. Nid oes yr un o brif grefyddau'r DU yn gwrthwynebu rhoi organau a meinweoedd na thrawsblannu. Os oes gennych chi unrhyw amheuan, dylech chi eu trafod gyda'ch cynghorydd ysbrydol neu grefyddol.

## 25. A yw lliw fy nghroen yn gwneud gwahaniaeth?

"Mae fy nhrawsblaniad wedi rhoi fy mywyd yn ôl i mi. Rwyf wedi gweld fy mhlant yn tyfu i fyny a bu modd i mi fynd yn ôl i'r gwaith. Mae'r diolch i gyd i ddydd 19 oed a ddewisodd roi rhodd bywyd i rywun er nad oedd wedi cwrdd â hwy erioed o'r blaen."

Derbynnydd trawsblaniad calon

Nac ydy. Fodd bynnag, mae organau'n cael eu cydweddu yn ôl grŵp gwaed a math y feinwe (yn achos trawsblannu arenau) a'r trawsblaniadau sy'n cydweddu orau yw'r rhai mwyaf llwyddiannus. Mae cleifion o'r un grŵp ethnig yn fwy tebygol o gydweddu'n agos. Bydd nifer fach o bobl gyda mathau prin o feinwe'n gorfod derbyn organ sy'n cydweddu'n dda gan rywun o'r un tarddiad ethnig, felly mae'n bwysig bod pobl o bob cefndir ethnig yn rhoi organau.

Bydd trawsblaniadau llwyddiannus yn digwydd rhwng pobl o wahanol grwpiau ethnig pan fydd y gofynion cydweddu yn cael eu bodloni'n ddigon da.

## 26. Os oes ar rywun angen dirfawr am organ, a oes unrhyw bwrpas mewn gwneud apêl arbennig?

Oes a nac oes. Bydd unrhyw apêl arbennig yn aml yn arwain at fwy o bobl yn cytuno i fod yn rhoddwr a gall olygu y bydd nifer yr organau sydd ar gael yn cynyddu.

Fodd bynnag, ni fydd unrhyw apêl gan y teulu yn y papurau newydd ac ar y teledu yn golygu y bydd organ ar gael ar unwaith i'r sawl sy'n destun yr apêl. Bydd yr unigolyn ar y rhestr drawsblaniadau, fel pawb arall, a bydd y rheolau sy'n ymwneud â chydweddu a dyrannu organau gan roddwyr yn dal yn berthnasol.

## 27. A alla i gytuno i roi rhai organau neu feinweoedd a pheidio â rhoi rhai eraill?

Gallwch. Gallwch chi nodi pa organau yr ydych chi'n dymuno'u rhoi. Rhowch dic yn y blychau priodol ar ffurflen Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG neu ar y cerdyn rhoddwyr, a dywedwch wrth y rhai agosaf atoch chi beth yw eich penderfyniad.

## 28. A alla i gytuno i roi i rai pobl a ddim i eraill?

Na allwch. Ni ellir derbyn organau a meinweoedd oni bai eu bod yn cael eu rhoi'n gwbl ddiomod. Ni ellir derbyn unrhyw amodau absoliwt gan roddwyr posibl. Yr unig gyfyngiad a dderbynnir yw pa organau neu feinweoedd fydd yn cael eu rhoi.

### 29. A allai fy organau a meinweoedd gael eu rhoi i glaf preifat?

Efallai. Mae cleifion sydd â hawl i gael triniaeth gan y GIG yn cael blaenoriaeth bob amser am organau a roddir. Mae'r rhain yn cynnwys dinasyddion y DU, aelodau Lluoedd Arfog ei Mawrhydi sy'n gwasanaethu dramor a chleifion sydd wedi eu cynnwys o fewn cytundeb iechyd cyfatebol gyda'r DU.

Ni fyddai cleifion eraill yn cael cynnig organ oni bai nad oes cleifion addas sydd â hawl i driniaeth gan y GIG ar gael. Gwneir pob ymdrech i sicrhau nad yw organ sydd wedi'i rhoi'n cael ei gwastraffu os oes rhywun a all elwa o'i chael.

Bydd meinwe sy'n cael ei rhoi ar gael i unrhyw sybyty yn y DU lle mae claf mewn angen.

### 30. A yw bod yn rhoddwr yn golygu oedi yn nhrefniadau'r angladd?

Nac ydy. Bydd y llawdriniaeth yn cael ei chynnal cyn gynted â phosibl ar ôl i'r rhoddwr farw.

### 31. A all fy organau neu feinwe gael eu rhoi i rywun mewn gwlad arall?

Gallant, efallai. Ceir cytundeb sy'n dweud os na ellir cydweddu organau gyda chleifion yn y DU y byddant wedyn yn cael eu cynnig i gleifion mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Yn yr un modd, bydd cleifion o'r DU yn gallu elwa o organau sy'n cael eu cynnig gan wledydd eraill o Ewrop. Mae'r cydweithrediad hwn yn golygu y bydd gwell siawns o ddod o hyd i dderbynydd addas, gan sicrhau nad yw organau gwerthfawr yn cael eu gwastraffu.

Gellir cynnig meinwe hefyd i gleifion mewn gwledydd eraill.

### 32. A yw rhoi organau a meinwe yn golygu y bydd y corff yn cael ei anffurfio?

Bydd organau a meinweoedd yn cael eu tynnu gyda'r gofal a'r parch mwyaf posibl i'r sawl a fu farw. Bydd hyn yn digwydd mewn theatr llawdriniaethau gyffredin, dan amodau di-haint gan feddygon arbenigol. Ar ôl tynnu'r organ bydd y toriad yn cael ei gau'n ofalus a'i orchuddio â dresin yn y ffordd arferol.

Gellir tynnu meinwe mewn theatr llawdriniaethau, yn y marwdy neu yn y parlwr angladdau. Bydd y llawdriniaeth yn cael ei chynnal gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd yn sicrhau bob amser bod y rhoddwr yn cael ei drin gyda'r parch a'r urddas mwyaf.

Dim ond yr organau a'r meinweoedd hynny a enwyd gan y rhoddwr neu gan eu teulu a gaiff eu tynnu.

“Rwyf wedi cael blas newydd ar fywyd. Rwy'n gallu gwneud pethau nad oeddwn i byth wedi breuddwydio y byddwn i'n gallu eu gwneud eto. Rwyf mor ddiolchgar am y cyfle a gefais gan y rhoddwr a'i deulu.”

Tad i ddau o blant, a gafodd iau/afu newydd

### 33. A fydd modd gweld y corff wedyn?

Bydd. Bydd teuluoedd yn cael cyfle i dreulio amser gyda'r ymadawedig ar ôl y llawdriniaeth os byddant yn dymuno a bydd hyn yn cael ei hwyluso gan y cydlynnydd trawsblannu. Bydd y trefniadau ar gyfer gweld y corff yr un fath ag yn achos unrhyw farwolaeth.

### 34. A oes yn rhaid i deulu'r rhoddwr dalu am gost y llawdriniaeth?

Nac oes. Ni fydd yn rhaid gwneud unrhyw daliad o gwbl. Bydd y GIG yn talu'r holl gostau sydd ynghlwm â rhoi organau neu feinwe.

### 35. A fydd y GIG yn talu costau'r angladd?

Ni fydd y GIG yn talu costau'r angladd. Bydd y teulu neu ystâd yr ymadawedig yn talu'r costau. Gall teuluoedd sy'n cael rhai budd-daliadau gael cymorth i dalu costau angladdau.

**"Roedd gwybod bod rhan ohono wedi mynd i helpu rhywun arall yn help mawr i mi wrth alaru amdano."**

Gwraig i roddwr

### 36. Mae perthynas i mi am fod yn rhoddwr. Beth fydd angen i mi ei wneud ar ôl iddynt farw?

Rhowch wybod i'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu am eich perthynas neu a fydd yn eich helpu'n syth ar ôl eu marwolaeth (gall hyn fod yn aelod o staff yr ysbyty, yn swyddog heddlu, yn swyddog o swyddfa'r crwner, neu'n feddyg teulu) eu bod yn dymuno rhoi organ neu feinwe. Gorau po gyntaf y byddwch chi'n rhoi gwybod i'r staff, gan y bydd hynny'n golygu ei bod yn fwy tebygol y caiff eu dymuniad ei wireddu.

### 37. A fydd yr organau neu'r meinweoedd sy'n cael eu rhoi ar gyfer eu trawsblannu yn cael eu defnyddio at ddibenion ymchwil?

Ni fydd organau a meinweoedd na ellir eu trawsblannu yn cael eu defnyddio at ddibenion ymchwil feddygol na gwyddonol oni bai fod eich teulu wedi rhoi caniatâd penodol ar gyfer hynny.

### 38. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng rhoi organau a chadw organau?

Deilliodd problemau cadw organau oherwydd na chafwyd cydsyniad priodol gan rieni neu berthnasau i gadw organau a meinweoedd a dynnwyd mewn post-mortem er mwyn eu defnyddio ar gyfer ymchwil a dibenion eraill. O ganlyniad i'r problemau hyn, newidiwyd y gyfraith a chafodd Deddf Meinweoedd Dynol 2004 a Deddf Meinwe Dynol (yr Alban) 2006 eu cyflwyno. Dim ond os rhoddwyd caniatâd ymlaen llaw y bydd organau a meinweoedd yn cael eu tynnu er mwyn eu trawsblannu.

### 39. A alla i adael fy nghorff ar gyfer addysg neu ymchwil feddygol ar ôl i mi roi fy organau?

Na allwch. Ni dderbynnir cyrff at ddibenion addysgu os yw'r organau wedi'u rhoi neu os oes archwiliad post-mortem wedi'i gynnal. Fodd bynnag, os mai dim ond y cornbilennau a fydd yn cael eu rhoi, gellir gadael y corff at ddibenion ymchwil.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am roi'r corff cyfan at ddibenion ymchwil neu ar gyfer archwiliadau anatomiaidd, bydd angen i chi gysylltu ag un o'r sefydliadau canlynol.

Yng Nghymru a Lloegr:  
Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol  
Finlaison House  
15-17 Furnival Street  
Llundain/London  
EC4A 1AB  
www.hta.gov.uk

Yn yr Alban, cysylltwch â'ch ysgol feddygol agosaf:  
Aberdeen  
Yr Adran Anatomi  
Ffôn: 01224 274 320/01224 272 000

Dundee  
Y Coleg Gwyddorau Bywyd,  
Prifysgol Dundee  
Ffôn: 01382 344 206

Caeredin  
Yr Adran Gwyddorau Biofeddygol,  
Prifysgol Caeredin  
Ffôn: 0131 650 2997/0131 650 8318

Glasgow  
Yr Adran Anatomi,  
Prifysgol Glasgow  
Ffôn: 0141 330 4296/0141 339 8855

St Andrews  
Yr Adran Anatomi,  
Prifysgol St Andrews  
Ffôn: 01334 463 601

Yng Ngogledd Iwerddon:  
Yr Adran Anatomi  
Canolfan Bioleg Feddygol  
Prifysgol Queen's Belfast

97 Lisburn Road  
Belfast BT9 7BL  
Ffôn: 028 9097 2131

#### 40. A oes modd i deulu'r rhoddwr gael gwybod pwy oedd y derbynnydd?

Rhaid parchu cyfrinachedd bob amser, heblaw yn achos rhoddwyr byw lle mae'r rhoddwr a'r derbynnydd yn adnabod ei gilydd.

Os dyna yw dymuniad y teulu, gellir rhoi manylion byr iddynt megis oed a rhyw'r unigolyn neu'r bobl sydd wedi elwa o'r rhodd. Gall cleifion sy'n cael organau gael gwybodaeth debyg am y rhoddwr. Nid yw'n bosibl bob amser rhoi gwybodaeth am y derbynnydd i deulu'r rhoddwr yn achos rhai mathau o drawsblaniadau meinwe.

Weithiau bydd teuluoedd am gyfnwid llythyrâu dienw i ddiolch neu i ddymuno'n dda drwy'r cydlynwyr trawsblannu ac mewn rhai achosion bydd teulu'r rhoddwr a'r derbynnydd wedi cytuno i gyfarfod.

#### 41. Pam dylwn i drafod fy nymuniadau gyda'm teulu?

Er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod beth yw eich dymuniad ar ôl i chi farw ac i gadarnhau neu i helpu i roi gwybod i staff y GIG beth oedd eich dymuniadau. Petaech chi'n cofrestru eich dymuniadau heb roi gwybod i'r bobl agosaf atoch chi, gallai fod yn syndod iddynt ar adeg anodd pan fyddant yn ceisio ymdopi â'u colled.

Os ydych chi'n teimlo ei fod yn bwnc anodd ei godi, gallech chi ddechrau drwy ddefnyddio'r llyfryn hwn neu stori am drawsblaniad ar y teledu neu mewn papur newydd fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth.

#### 42. Beth fyddai'n digwydd petai fy nheulu yn gwrthwynebu?

Gwyddom y bydd teuluoedd yn cytuno yn y rhan fwyaf o achosion os ydynt yn gwybod mai dyna

oedd dymuniad y sawl a fu farw. Os bydd teulu'r unigolyn sydd wedi marw, neu'r rheini sydd agosaf ato, yn gwrthwynebu'r bwriad i roi organ er bod yr unigolyn a fu farw wedi rhoi ei ganiatâd, naill ai drwy ddweud wrth berthnasau, wrth ffrindiau agos neu wrth staff clinigol, neu drwy gario cerdyn rhoi organau neu drwy gofrestru ei ddymuniad ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG, bydd y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn trafod y mater â hwy mewn ffordd sensitif. Byddant yn cael eu hannog i dderbyn dymuniadau'r unigolyn a fu farw ac esbonnir iddynt nad oes ganddynt hawl cyfreithiol i wrthod neu wrthwynebu'r dymuniadau hynny. Gall fod achosion, fodd bynnag, lle byddai'n amhriodol i fwrw ymlaen i roi'r organau.

#### **43. Beth fydd yn digwydd os nad oes gen i deulu na pherthnasau eraill?**

Gallwch chi ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG, ond er mwyn cyflawni eich dymuniadau ynglŷn â rhoi organau, bydd angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol siarad â rhywun arall adeg eich marwolaeth a all roi cyngor am eich hanes meddygol a chymdeithasol. Efallai mai eich meddyg teulu fydd yr unigolyn hwn, ond mae'n syniad da i chi hefyd ddweud wrth yr unigolyn sydd agosaf atoch chi yn eich bywyd, megis hen ffrind neu gydweithiwr agos, am eich penderfyniad.

#### **44. Beth yw perthynas gymwys?**

Os nad yw dymuniadau unigolyn a fu farw yn hysbys, mae'r Deddfau Meinweoedd Dynol yn gosod pobl yn nhrefn pwysigrwydd eu perthynas â'r sawl a fu farw. Mae hyn yn galluogi'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ceisio cael caniatâd i dynnu organau i wybod â phwy y dylent gysylltu ac ym mha drefn. Mae hyn yn amrywio o ŵr neu wraig neu bartner (gan gynnwys partner sifil neu bartner o'r un rhyw); rhiant neu blentyn; brawd neu chwaer a pherthnasau eraill neu hen ffrind.

#### **45. A ddylwn i roi fy nymuniadau yn fy ewyllys?**

Na ddylech. Erbyn i'ch ewyllys gael ei darllen mae'n debygol o fod yn rhy hwyr o lawer i chi fod yn rhoddwr gan fod angen tynnu organau a meinweoedd o'r corff o fewn 48 awr ar ôl y farwolaeth. Dyna pam ei bod mor bwysig rhoi gwybod i'r rheini sydd agosaf atoch chi am eich dymuniad ac i gofnodi hynny ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG.

#### **46. A alla i newid fy meddwl?**

Gallwch. Gallwch chi ffonio'r Llinell Rhoddwyr Organau ar 0300 123 23 23 neu fynd i'n gwefan [www.organdonation.nhs.uk/register](http://www.organdonation.nhs.uk/register) – a llenwi'r ffurflen gan ofyn i ni dynnu eich enw oddi ar y Gofrestr.

Os byddai'n well gennych chi, gallwch chi ysgrifennu i FREEPOST RRZK-SHUX-SBCK, NHSBT, Fox Den Road, Stoke Gifford, Bryste/Bristol, BS34 8RR.

Os oes gennych chi gerdyn rhoddwr organau, cofiwch ei rwygo. Dywedwch wrth eich teulu eich bod chi wedi newid eich meddwl.

#### **47. A all rhywun sydd wedi marw roi sberm neu wyau i'w defnyddio rywbryd yn y dyfodol?**

Er bod modd cael sberm neu wyau o'r corff, mae'n anghyfreithlon i'w storio neu greu embryo heb ganiatâd ysgrifenedig y rhoddwr ymlaen llaw.

#### **48. A all pobl brynu neu werthu organau?**

Na allant, mae deddfau trawsblannu'r DU yn rhoi gwaharddiad llwyr ar werthu organau neu feinweoedd dynol.

#### **49. Hoffwn i roi gwaed, beth dylwn i ei wneud?**

Mae angen gwaed drwy'r amser, ar gyfer pob math o bethau, fel triniaethau canser,

llawdriniaethau ac yn ystod genedigaethau. Mae miloedd o ganolfannau ledled y wlad lle mae sesiynau rhoi gwaed yn cael eu cynnal ac mae croeso cynnes i roddwyr newydd bob amser. Gall bron pawb sydd rhwng 17 a 60 oed ac sy'n gyffredinol iach roi gwaed.

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Cymru (i'r gogledd o Fachynlleth), neu yn Lloegr, cysylltwch â:

Y Gwasanaeth Gwaed Cenedlaethol  
0300 123 2323  
[www.blood.co.uk](http://www.blood.co.uk)

Os ydych chi'n byw yn Ne Cymru (sy'n cynnwys De, Canolbarth, Dwyrain a Gorllewin Cymru) cysylltwch â:

Gwasanaeth Gwaed Cymru  
0800 25 22 66  
[www.welshblood.org.uk](http://www.welshblood.org.uk) (Saesneg)  
[www.gwaedcymru.org.uk](http://www.gwaedcymru.org.uk) (Cymraeg)

Os ydych chi'n byw yn yr Alban, cysylltwch â: Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol yr Alban

0845 90 90 999  
[www.scotblood.co.uk](http://www.scotblood.co.uk)

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon cysylltwch â:

Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol Gogledd Iwerddon  
028 9053 4662  
[www.nibts.org](http://www.nibts.org)

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Cymru (i'r gogledd o Fachynlleth), neu yn Lloegr, cysylltwch â:

Cofrestrfa Mêr Esgyrn Prydain (BBMR)  
0300 123 2323  
[www.blood.co.uk](http://www.blood.co.uk)

Os ydych chi'n byw yn Ne Cymru (sy'n cynnwys De, Canolbarth, Dwyrain a Gorllewin Cymru) cysylltwch â:

Cofrestrfa Mêr Esgyrn Cymru  
0800 371 502  
[www.welshblood.org.uk](http://www.welshblood.org.uk) (Saesneg)  
[www.gwaedcymru.org.uk](http://www.gwaedcymru.org.uk) (Cymraeg)

Os ydych chi'n byw yn yr Alban, cysylltwch â: Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol yr Alban

0845 90 90 999  
[www.scotblood.co.uk](http://www.scotblood.co.uk)

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon cysylltwch â: Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Cenedlaethol Gogledd Iwerddon

028 9053 4662  
[www.nibts.org](http://www.nibts.org)

Ceir hefyd gofrestr o bobl sy'n fodlon bod yn rhoddwyr mêr esgyrn, sy'n cael ei chadw gan Ymddiriedolaeth Anthony Nolan. Os hoffech chi wybod mwy am y gofrestr, cysylltwch â: [newdonor@anthonymolan.org.uk](mailto:newdonor@anthonymolan.org.uk)

0901 88 22 234  
[www.anthonynolan.org.uk](http://www.anthonynolan.org.uk)

## 50. Mae gen i ddiddordeb mewn rhoi mêr esgyrn, beth dylwn i ei wneud?

Heb fêr esgyrn, ni ellir cynhyrchu gwaed. Pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le a bydd mêr esgyrn yn cael ei niweidio, er enghraifft o ganlyniad i driniaeth ar gyfer lewcmia neu ganser y gwaed, rhaid i'r claf gael trawsblaniad i oroesi.

## I ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG:

- ffoniwch y Llinell Rhoddwyr Organau ar 0300 123 23 23
- ewch i [www.organdonation.nhs.uk](http://www.organdonation.nhs.uk)
- llenwch y ffurflen gofrestru a'i dychwelyd atom. Rhowch y ffurflen mewn amlen a'i phostio i:

FREEPOST RRZK-SHUX-SBCK  
Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT)  
Fox Den Road  
Stoke Gifford  
Bryste/Bristol  
BS34 8RR

Does dim angen i chi ddefnyddio stamp, ond bydd defnyddio un yn helpu i arbed arian i ni.

Ar ôl i ni gael eich ffurflen gofrestru, bydd eich enw'n cael ei ychwanegu at Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG.

Oherwydd ein bod yn cael cymaint o gofrestriadau, ni fyddwn yn cydnabod bod y ffurflen wedi ein cyrraedd ni. Fodd bynnag, os bydd angen cadarnhad ysgrifenedig arnoch chi, ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar gefn y daflen hon.

**Diolch am eich cymorth.**

## Cofrestrwch fy manylion ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG

Defnyddiwch BRIF LYTHRENNAU gan ddefnyddio beiro ddu.

\*rheid llenwi'r maes.

### Fy enw a'm cyfeiriad

Cyfenw\*

Enw(au) cyntaf\*

Dyddiad geni\* / / Dyn \* Menyw \*

Cyfeiriad\*

Cod post\*

Ffôn

Symudol

E-bost

### Fy nymuniadau

**Rwyf eisiau rhoi:** (Ticiwch y blychau perthnasol)

A. unrhyw un o'm horganau neu fy meinwe  **neu**

B. fy arenau  calon  afu/iau  coluddyn bach   
llygaid  ysgyfaint  pancreas  meinwe

**ar gyfer trawsblaniad ar ôl i mi farw.**

Llofnod

Dyddiad

Ticiwch yma os hoffech gael gwybodaeth yn y dyfodol gan Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG am roi gwaed, organau a meinwe.

## Fy nharddiad ethnig

Mae hi'n gwy tebygol y ceir cyfatebiad agosach a thrawsblaniad llwyddiannus os daw'r rhoddwr a'r derbynnydd o'r un grŵp ethnig. Ticiwch y grŵp ethnig sy'n eich disgrifio chi orau.

### Gwyn:

Prydeinig  Gwyddelig  Arall

### Cymysg:

Caribiaidd Du/Gwyn  Asiaidd/Gwyn

Affricanaidd Du/Gwyn  Arall

### Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:

Indiaidd  Pacistanaidd  Bangladeshaidd  Arall

### Du neu Ddu Prydeinig:

Caribiaidd  Affricanaidd  Arall

### Cefndir cymysg arall:

Tsieineaidd  Arall

### Ni nodwyd:

---

Llenwch y ffurflen hon a'i phostio at:

FREEPOST RRZK-SHUX-SBCK,  
Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG  
(NHSBT),  
Fox Den Road,  
Stoke Gifford,  
Bryste/Bristol BS34 8RR

Does dim angen i chi ddefnyddio stamp, ond bydd defnyddio un yn helpu i arbed arian i ni.

## Diolch am eich cymorth a'ch cefnogaeth.

---

**Sicrwydd Diogelu Data.** Unig bwrpas llenwi'r ffurflen hon yw cofnodi eich dymuniadau i fod yn rhoddwr organau. Caiff yr holl wybodaeth a roddir i Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ei defnyddio'n unol â Deddf Diogelu Data 1998. Gallai eich data gael ei drin ar ein rhan mewn gwlad nad yw fel rheol yn rhwym wrth gyfraith Diogelu Data'r UE. Os felly, byddwn yn sicrhau y caiff y data ei ddiogelu yn unol â gofynion yr UE. Ceir rhagor o wybodaeth am sut yr ydym yn gofalu am eich manylion personol yn [www.nhsbt.nhs.uk](http://www.nhsbt.nhs.uk) neu drwy ffonio 0300 123 23 23.

Os ydych chi'n dymuno newid eich cofnod neu ei dynnu oddi ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG cewch wneud hynny drwy ffonio'r Llinell Rhoddwyr Organau ar 0300 123 23 23, drwy fynd i [www.organdonation.nhs.uk/ukt/welsh/welsh.jsp](http://www.organdonation.nhs.uk/ukt/welsh/welsh.jsp) neu drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad dros y ddalen.

Cyhoeddwyd gan:

Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG  
Fox Den Road  
Stoke Gifford  
Bryste BS34 8RR

Ffôn: 0117 975 7575

E-bost: [enquiries@organdonation.nhs.uk](mailto:enquiries@organdonation.nhs.uk)

[www.organdonation.nhs.uk/ukt/welsh/welsh.jsp](http://www.organdonation.nhs.uk/ukt/welsh/welsh.jsp)

© Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG 2009

# Organ and tissue donation



Your questions  
answered

For more information:

**0300 123 23 23**

[www.organdonation.nhs.uk](http://www.organdonation.nhs.uk)



